Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# CYD-BWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL.
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**Cynhaliwyd: 26 Chwefror 2016**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Howard Sutcliffe**

**Awdur yr Adroddiad: Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE**

**Teitl: Eitem 10 Cynllun Dirprwyo ar gyfer Ymgynghoriadau Cynllunio a Datblygu**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Un o swyddogaethau'r Cydbwyllgor ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yw ymateb i ymgynghoriadau cynllunio a datblygu y cyfeirir at yr AHNE am sylwadau. Mae'r rhan fwyaf o ymgynghoriadau yn ymwneud â chynigion yn yr AHNE, ond mae hefyd yn cynnwys y rhai y tu allan i'r ardal ddynodedig sydd o fewn lleoliad y dirwedd warchodedig a gall effeithio ar yr AHNE.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn galluogi'r Cydbwyllgor i ymateb mewn modd amserol, effeithiol ac effeithlon i ymgynghoriadau cynllunio, gan yr awdurdodau cyfansoddol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyd-bwyllgor yn mabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Ymgynghoriadau Cynllunio a Datblygu. (Atodiad 1)

## 4. Manylion yr Adroddiad

Gweler Atodiad 1 sy'n amgaeedig ar gyfer Cynllun Dirprwyo ar gyfer Ymgynghoriadau Cynllunio a Datblygu.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council | wrexham County Borough Bwrdeistref Sirol wrecsam | Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Mae’r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Ymgynghoriadau Cynllunio a Datblygu yn gosod fframwaith i’r AHNE gynyddu nifer yr Ymgynghoriadau Cynllunio mae'n cyfrannu atynt.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes cost ar wahân i amser swyddogion

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Amh.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r Swyddog AHNE wedi ymgynghori â'r adran Gyfreithiol yn Sir Ddinbych i sicrhau bod Swyddogion AHNE yn cyfarfod ac yn dilyn y gweithdrefnau cyfreithiol cywir.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r prosiect hwn

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ar hyn o bryd mae Swyddog Cynllunio AHNE yn derbyn dros 150 o geisiadau bob blwyddyn; mae hyn wedi cynyddu 50% ers ymestyn yr AHNE i Ddyffryn Dyfrdwy. Fodd bynnag, mae’r Swyddog Cynllunio AHNE yn dal i weithio dim ond 2 ddiwrnod yr wythnos. Oni bai bod mwy o ddirprwyo ni allwn ymateb mewn modd amserol i rai cynigion cynllunio a datblygu.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae’r sail Gyfreithiol yn Adran 101(5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle gall Awdurdodau Lleol ddod i gytundeb i ‘Gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill ar ffurf Cyd-bwyllgor'